

<b>Adroddiad i'r</b>	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	26 Gorffennaf 2023
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b>	Y Cyng. Gwyneth Ellis / Steve Gadd – Pennaeth Cyllid ac Archwilio
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Bob Chowdhury- Prif Archwilydd Mewnol
<b>Teitl</b>	Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-2023

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. I ddangos llywodraethu da, rhaid i'r Cyngor ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd a nodir yn Fframwaith Darparu Llywodraethu Da o fewn Llywodraeth Leol (Cymru), rhifyn 2016. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) wedi'i baratoi gan ddefnyddio hunanasesiad, ac mae'n adrodd ar drefniadau llywodraethu a gwelliant y Cyngor ar gyfer 2022-23 ac ar gynnydd o ran mynd i'r afael a'r camau gwella yn AGS 2021-22. Cyflwynir yr AGS fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon terfynol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gyhoeddi AGS i gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018. Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i'r pwyllgor gyflwyno sylwadau ar y datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer eleni ar wahân i'r Datganiad Cyfrifon er mwyn gallu rhoi ystyriaeth ddyledus iddo.

### **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn adolygu a chymeradwyo'r datganiad llywodraethu blynyddol drafft ar gyfer 2022-23 (Atodiad 1) ac yn monitro'r cynnydd a wnaed ar y cynllun gweithredu o 2021-22.

### **4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1. Datblygwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23 (Atodiad 1) drwy gynnal hunanasesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn erbyn y Fframwaith Darparu Llywodraethu Da Mewn Llywodraeth Leol (Cymru), rhifyn 2016. Cynhaliwyd hyn gan grŵp swyddogion yn cynrychioli'r swyddogaethau llywodraethu allweddol o bob rhan o'r Cyngor. Mae'r AGS yn cyfeirio at ffynonellau tystiolaeth a ffynonellau sicrwydd amrywiol megis Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol, Adroddiad Perfformiad Blynyddol, adroddiadau Archwilio Allanol, a chofrestrau risg.
- 4.2. Unwaith eto mae crynodeb o effaith Covid-19 ar drefniadau llywodraethu ac ystyriaethau mewn perthynas â gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi'i gynnwys yn y datganiad, ynghyd ag adolygiad o ddulliau gweithio newydd staff ac aelodau. Mae'r datganiad hefyd wedi adolygu cyfarfodydd pwyllgor a sut maen nhw'n bellach ar-lein ac yn cael eu gweddarlleu i sicrhau trefniadau llywodraethu da.
- 4.3. Mae'r AGS yn tynnu sylw at unrhyw feysydd i'w gwella o ran trefniadau llywodraethu mewn cynllun gweithredu. Mae cynnydd yn erbyn cynllun gwella'r flwyddyn flaenorol yn dangos cynnydd da ac mae unrhyw gamau gweithredu sydd ar y gweill wedi'u cario ymlaen i gynllun gwella'r flwyddyn gyfredol.

### **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1. Nid yw'r AGS yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol. Mae'n darparu asesiad a sicrwydd ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, perfformiad gweithredol ac ariannol y Cyngor, trefniadau llywodraethu, ymgysylltu â'r gymuned ac ati, gyda phob un ohonynt yn cael eu cyfeirio tuag at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1. Amherthnasol.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Cynhyrchwyd yr AGS gyda chyfraniad gan swyddogion llywodraethu allweddol. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain ac yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru yn flaenorol) fel rhan o archwiliad y cyfrifon ariannol.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Amherthnasol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Pe na bai'r Cynllun Gwella yn cael ei weithredu, byddai gwendidau yn aros yn nhrefn lywodraethol y Cyngor, a allai arwain at:

- Adroddiadau rheoleiddiol niweidiol;
- Defnydd gwael o arian cyhoeddus;
- Methiant i wella meysydd corfforaethol a meysydd gwasanaeth allweddol;
- Colli hyder budd-ddeiliaid; ac
- Effaith andwyol ar enw da'r Cyngor.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Amherthnasol.